**GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

**Adran 04 - Egwyddorion Nolan**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Hydref 2021 |
| **Perchennog Polisi:** | Rheolaeth Cyllid |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Hydref 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Mehefin 2022 |

**Adran 4: Egwyddorion Nolan**

## 4. Adran 4: Egwyddorion Nolan ar Fywyd Cyhoeddus

4.1. Mae cod ymarfer 'Egwyddorion Nolan' wedi cael ei ysgrifennu mewn perthynas â'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus a gydnabuwyd gan Bwyllgor Nolan yn eu Hadroddiad Cyntaf ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym Mai 1995 ac a ardystiwyd maes o law gan y Llywodraeth. Mae Prifysgol Aberystwyth yn hyrwyddo'n weithredol yr egwyddorion a nodir isod ac yn ymdrechu i lynu wrthynt, ac yn disgwyl i'r swyddogion a'r staff i wneud yr un peth.

4.2. Saith Egwyddor Nolan:

**1. Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig.

**2. Cywirdeb**

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain o dan ymrwymiaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu materol ar gyfer eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau. Dylent ddatgan a datrys unrhyw ddiddordebau a pherthnasau.

**3. Gwrthrychedd**

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac yn ôl teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

**4. Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ac mae'n rhaid iddynt ymostwg i bob archwiliad sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau hynny.

**5. Bod yn Agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thrylowy. Ni ddylid celu gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai fod yna resymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

**6. Gonestrwydd**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

**7. Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo'r egwyddorion yn weithredol a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio enghreifftiau o ymddygiad.

4.3. Nododd Saith Egwyddor Nolan yr 'Egwyddorion ar Fywyd Cyhoeddus' sy'n ddisgwyliedig gan bawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life